Cyngor Cymuned Dolbenmaen
Cofnodion cyfarfod BLYNYDDOL y Cyngor a gynhaliwyd ar yr 4ydd o Fai am 7 pm yr hwyr Nghanolfan Pentrefelin.

1 Croesawu'r Cyhoedd – Nid oedd neb o'r cyhoedd yn bresennol. Croesawyd Jess Williams a Raymond Jones i'w cyfarfod blynyddol cyntaf.

2 Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd - Cynigiwyd John Jones i barhau fel Cadeirydd (RP yn cynnig a RW yn eilio) a Megan Lloyd Williams (GE yn cynnig a MJ yn eilio) fel Is-gadeirydd am flwyddyn arall

3 John Jones (Cadeirydd), Richard Parry, Edward Evans (Bryncir), Michael Jones, Enid Egginton (Garndolbenmaen), Huw Pritchard, Sarah Jones, Raymond Jones (Pentrefelin), Richard Williams, Gwilym Evans (Prenteg), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Iddon Edwards, Gwenno Emlyn Huws, Jess Williams (Penmorfa),

4 Ymddiheuriadau – Clifford Williams (Garndolbenmaen), Stephen Churchman (Cynghorwr Sir Cyngor Gwynedd), June Jones (Cynghorydd Sir Cyngor Gwynedd).

5 Ddim yn bresennol – neb.

6 Datgan Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2022 - Angen cofnodi fod Richard Parry wedi mynd i Ganolfan Golan mewn camgymeriad. Gwenno Emlyn Huws yn datgan eu cywirdeb ac Edward Evans yn eilio.

7 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion - Dim

8 Adroddiad Blynyddol y Cyngor – Cyflwynodd y Clerc adroddiad o waith y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Diolchwyd i'r Clerc am ei adroddiad manwl.

9 Unllais Cymru – Cynrychiolwyr y Pwyllgor Rhanbarth – Megan Ll Williams a Sarah Jones i gynrychioli'r Cyngor ar y Pwyllgor uchod.

10 Mabwysiadu Polisïau'r Cyngor - Mabwysiadwyd y polisïau canlynol: Cod Ymddygiad, Cynllun Cyhoeddi, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol a'r Cynllun Iaith. Iddon Edwards yn cynnig a Megan Ll Williams yn eilio.

11 Aelodaeth is-bwyllgorau a'r misoedd y dylid eu cynnal – Diweddarwyd manylion aelodaeth o'r is-bwyllgorau. Gweler manylion ar y Tabl Cynghorwyr ar gael ar y safle we.

12 Llawr yn agored – Dim.